Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr

## Briff i'r sector:

## Dysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL)

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English
**www.medr.cymru**

Noddir gan
**Llywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

## Rhagair

O dan Adran 129 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, mae gan Medr gyfrifoldeb statudol i gyhoeddi Cod Ymgysylltu â Dysgwyr ynghylch cynnwys dysgwyr ym mhroses benderfynu eu darparydd. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i ddysgwyr:

- gymryd rhan ym mhroses eu darparydd o wneud penderfyniadau perthnasol;
- cael cynrychiolaeth effeithiol i'w lleisiau ym mhroses benderfynu eu darparydd; a
- rhoi eu barn ar yr addysg maen nhw'n ei derbyn a materion sy'n destun pryder, neu sydd o ddiddordeb iddynt.

Cynhaliodd Medr ymgynghoriad ar ddrafft y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yn nhymor yr hydref 2025, a chyhoeddi'r Cod terfynol ym mis Ebrill 2026. Mae'r Cod yn berthnasol i bob darparydd yn y sector addysg drydyddol yng Nghymru: sefydliadau addysg bellach ac uwch, darparwyr prentisiaethau, **darparwyr ACL**, ac ysgolion sy'n cynnwys chweched dosbarth. Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol gydymffurfio â'r Cod o **1 Awst 2026**, fel amod yn gysylltiedig â chyllid.

Wrth inni ymgynghori a chynnal trafodaethau ehangach â'r sector trydyddol, gofynnodd darparwyr inni sicrhau bod y Cod yn cael ei deilwra i gyd-fynd â'r amrywiaeth eang iawn o sefydliadau a dysgwyr a geir yng ngwahanol rannau o'r sector. Rydym wedi datblygu'r briff hwn fel rhan o gyfres o ddeunyddiau cyfeiriol sy'n gosod y Cod yn ei gyd-destun ym mhob rhan o'r sector trydyddol. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth ymarferol ynghylch sut rydym yn disgwyl i'r Cod gael ei weithredu a'r dystiolaeth ar ei gyfer. Bwriedir iddo gael ei ddarllen ochr yn ochr â'r Cod ei hun, sy'n nodi'r gofynion penodol y mae'n rhaid i bob darparydd eu bodloni a'r dystiolaeth y mae'n rhaid iddynt ei darparu i Medr i ddangos cydymffurfiaeth.

Byddwn yn parhau i adolygu'r briff hwn i adlewyrchu'r adborth gan ddysgwyr a darparwyr, ac i ychwanegu adnoddau ac enghreifftiau pellach wrth iddynt gael eu datblygu.

## Ar gyfer pwy mae'r briff hwn?

- Staff awdurdod lleol sy'n darparu ac yn rheoli ACL
- Staff SABau sy'n darparu ac yn rheoli ACL
- Staff sy'n arwain partneriaethau ACL
- Cynghorwyr ac aelodau pwyllgor sy'n gyfrifol am oruchwylio ACL
- Dysgwyr gan gynnwys rhai mewn rolau cynrychioliadol fel cynrychiolwyr cwrs

## Cyd-destun y sector: Dysgu oedolion yn y gymuned (ACL)

Darperir ACL gan bartneriaethau sydd fel arfer yn cynnwys un neu fwy o awdurdodau lleol, un neu fwy o sefydliadau addysg bellach, ac weithiau sefydliadau eraill. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn astudio am gyfnod byr bob wythnos ac yn aml ar gyrsiau byr, mewn lleoliadau cymunedol. Mae hyn yn golygu na fydd ganddyn nhw’r amser na’r awydd yn aml i gymryd rhan mewn strwythurau mwy ffurfiol i ymgysylltu neu ymgynghori â dysgwyr.

Eu prif ddull o ymgysylltu â'r darparydd yw drwy eu tiwtor, a'r tiwtor fel arfer yw eu prif unigolyn cyswllt i roi adborth am eu profiad dysgu, neu i rannu unrhyw bryderon.

Mae hyn yn golygu y bydd angen i ddarparwyr deilwra eu dull o ymgysylltu â dysgwyr i fodloni anghenion dysgwyr, gan ganolbwyntio ar ddulliau strwythuredig er mwyn sicrhau bod adborth a roddir drwy diwtoriaid yn cael ei gasglu a chamau'n cael eu cymryd, a bod gan ddysgwyr ffyrdd eraill i gymryd rhan ym mhenderfyniadau ehangach y sefydliad nad ydynt yn ddibynnol ar gyswllt â thiwtor yn unig.

Nid yw'n ddisgwyliedig nac yn ofynnol gan Medr i ddarparwyr ACL gael undeb myfyrwyr na chorff ffurfiol, parhaol cyfatebol i gynrychioli dysgwyr. Nid yw'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yn diffinio mecanweithiau na strwythurau penodol y mae'n rhaid i ddarparwyr eu defnyddio. Fodd bynnag, mae'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr sicrhau bod ymgysylltu â dysgwyr yn llywio penderfyniadau a pholisïau strategol darparwyr ar lefel y sefydliad.

## Gofynion y Cod

Gofynion ar gyfer 2026 – 2027

- Cyn diwedd y flwyddyn academaidd, **rhaid** i ddarparwyr ACL gyhoeddi ymrwymiad i ymgorffori a chefnogi ymgysylltiad effeithiol â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau
- **Rhaid** i hwn gydymffurfio ag egwyddorion Y Cod
- Tystiolaeth yn ofynnol drwy'r Ffurflen Sicrwydd Flynyddol (Hydref 2027)

Gofynion o 2027 – 2028

- **Rhaid** i ddarparwyr ACL adolygu'r ymrwymiad yn flynyddol
- **Rhaid** i ddarparwyr ACL ddarparu tystiolaeth o effaith ymgysylltu â dysgwyr
- Tystiolaeth yn ofynnol drwy'r Ffurflen Sicrwydd Flynyddol (o Hydref 2028)

Llywodraethu

- **Rhaid** i'r corff llywodraethu (neu'r corff cyfatebol) gadarnhau cydymffurfiaeth yn flynyddol
- Sicrwydd yn ofynnol drwy'r Ffurflen Sicrwydd Flynyddol (o Hydref 2027)

Dysgwyr

- **Rhaid** i ddysgwyr gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu ac adolygu'r ymrwymiad
- **Rhaid** hyrwyddo'r ymrwymiad mewn ffyrdd sy'n hygyrch i ddysgwyr

Mae'n **rhaid** i'r ymrwymiad gynnwys:

- Sut y caiff ymgysylltu â myfyrwyr ei ymgorffori a'i gefnogi wrth wneud penderfyniadau
- Sut yr aeth unrhyw gorff sy'n cynrychioli dysgwyr ati i gyd-ddatblygu (adolygu) yr ymrwymiad
- Sut mae dysgwyr wedi cymryd rhan yn y gwaith o'i ddatblygu (a'i adolygu)

- Sut y rhoddir ystyriaeth i farn dysgwyr amrywiol
- Pa ddysgwyr sydd wedi'u cynnwys

Lle bynnag y ceir corff sy'n cynrychioli dysgwyr (e.e. UM, cyngor, Senedd) **rhaid** i'r darparydd weithio mewn partneriaeth â'r corff hwnnw i:

- gyd-gynhyrchu'r ymrwymiad
- adolygu'r ymrwymiad yn flynyddol
- ei hyrwyddo mewn modd hygyrch ymhlith dysgwyr drwy sianelau cyrff cynrychioli darparwyr a dysgwyr

Lle bynnag y ceir corff sy'n cynrychioli dysgwyr **rhaid** i'r corff hwnnw lofnodi'r ymrwymiad i gadarnhau'r gofynion uchod mewn perthynas â gwaith partneriaeth.

## Yr ymrwymiad i ymgysylltu â dysgwyr

Mae'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr weithio gyda'u dysgwyr i ddatblygu a chyhoeddi ymrwymiad i ymgorffori a chefnogi ymgysylltu effeithiol â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau, yn unol ag egwyddorion y Cod.

Bwriedir i'r ymrwymiad roi adlewyrchiad clir a gonest o ymgysylltiad presennol dysgwyr wrth wneud penderfyniadau, yn hytrach na datganiad uchelgeisiol o fwriad, a dylid ei ddefnyddio fel offeryn gwella parhaus i gydnabod cryfderau, nodi meysydd i'w datblygu, a mynd i'r afael â bylchau.

Mae awdurdodau lleol unigol neu ddarparwyr sy'n derbyn cyllid yn uniongyrchol gan Medr ar gyfer ACL yn gyfrifol am weithredu'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr a bydd Medr yn gofyn iddynt ddarparu tystiolaeth o gydymffurfiaeth â gofynion y Cod.

Ar gyfer ACL, gellir a dylid sefydlu trefniadau i gynnwys dysgwyr mewn strwythurau penderfynu ar raddfa'r bartneriaeth lle bônt yn ymwneud â phenderfyniadau'r bartneriaeth (fel y cyrsiau a gynigir i ddysgwyr o fewn ardal ddaearyddol). Dylai awdurdodau lleol weithio gyda'u partneriaethau ACL i gytuno ar brosesau ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr, rhannu arfer da ac adolygu effeithiolrwydd eu dulliau. Gall fod gan ddarparwyr unigol neu awdurdodau lleol strwythurau i ymgysylltu â dysgwyr ac i wneud penderfyniadau sy'n unigryw i'w cyd-destun hefyd.

Efallai mai'r dull mwyaf effeithiol fyddai trefnu i gorff cyflenwi ar is-gontract baratoi a chyhoeddi'r ymrwymiad, neu i grŵp o ddarparwyr wneud hynny ar lefel partneriaeth. Bydd yn parhau i fod yn ofynnol i'r sefydliad a gyllidir gan Medr roi sicrwydd bod yr ymrwymiad neu'r ymrwymiadau cyhoeddedig yn cydymffurfio â'r Cod ar gyfer y ddarpariaeth ACL y mae'n ei chyllido.

Dylid rhoi gwybodaeth glir i ddysgwyr am yr ymrwymiad sy'n berthnasol iddynt, pwy sy'n gyfrifol am eu dysgu ac i le y dylent gyfeirio adborth neu gwynion.

Nid yw Medr yn manylu'n benodol ar strwythur na ffurf yr ymrwymiad, ac mae'n cynghori y dylai fod ar y ffurf sy'n fwyaf priodol i bob darparydd neu gonsortiwm a'i ddysgwyr. Gall hyn gynnwys enghreifftiau symlach neu fwy gweledol o ymgysylltu â dysgwyr, gyda

dolenni i ddogfennau ysgrifenedig mwy ffurfiol lle bo angen er mwyn bodloni gofynion y Cod.

## Gall darparwyr ACL ymgysylltu â dysgwyr yn effeithiol drwy:

- Ddarparu gwybodaeth glir i ddysgwyr am eu hawliau, sut y gallant fynegi barn, rhannu pryder neu wneud cwyn; dylai'r wybodaeth hon gael ei harddangos yn amlwg mewn lleoliadau a'i hesbonio ar ddechrau cyrsiau, fel nad yw'n cael ei "chladdu" mewn gwaith papur ymrestru.
- Darparu llwybrau i ddysgwyr gymryd rhan mewn penderfyniadau a rhoi adborth sy'n annibynnol ar eu tiwtor
- Sicrhau bod dysgwyr yn gallu rhannu materion sensitif yn gyfrinachol
- Rhoi cadarnhad ffurfiol i ddysgwyr fod eu barn wedi'i derbyn a'i chofnodi ac y bydd yn derbyn ystyriaeth.
- Casglu, dadansoddi ac ymateb i farn dysgwyr yn systematig er mwyn creu darlun cyffredinol, gan gynnwys adborth a gesglir gan diwtoriaid neu ganolfannau unigol
- Sicrhau bod strwythurau ar waith i diwtoriaid gasglu barn, pryderon ac awgrymiadau dysgwyr, porthi'r rhain i brosesau sicrhau ansawdd, ac uwchgyfeirio unrhyw bryderon
- Ymgorffori trefniadau i ymgysylltu â dysgwyr wrth gynllunio a gwerthuso penderfyniadau gan y sefydliad neu bartneriaeth sy'n effeithio ar brofiad y dysgwr (gweler yr enghreifftiau o benderfyniadau isod)
- Ystyried dulliau priodol o gynnwys dysgwyr gyda'i gilydd mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, fel llwyfannau digidol, fforymau neu grwpiau ffocws; gallai'r rhain fod yn strwythurau sefydlog neu gael eu cynnal ar sail ad hoc, yn dibynnu ar y mathau o benderfyniadau a wneir ac anghenion dysgwyr.
- Sicrhau bod arweinwyr gwasanaethau ACL ac unrhyw grwpiau neu bwyllgorau perthnasol yn cynnwys ymgysylltu â dysgwyr a llais y dysgwr fel eitem sefydlog mewn cyfarfodydd
- Cofnodi a monitro'r newidiadau a'r gwelliannau a wnaed mewn ymateb i farn dysgwyr
- Cael mecanweithiau i egluro wrth ddysgwyr sut mae eu barn wedi effeithio ar benderfyniadau ac wedi dylanwadu ar arferion y darparydd. Gallai hyn gynnwys egluro lle na ellir gweithredu awgrymiadau neu geisiadau dysgwyr a'r rhesymau am hynny, neu egluro newidiadau a allai gymryd mwy o amser ond a fydd o fudd i gohortau o ddysgwyr yn y dyfodol

**Gallai enghreifftiau o "benderfyniadau perthnasol" ar gyfer oedolion sy'n dysgu yn y gymuned gynnwys:**

- Y cyrsiau sydd ar gael, amseroedd y cyrsiau a'r lleoliadau ar eu cyfer
- Newidiadau i leoliadau
- Prynu offer neu feddalwedd a ddefnyddir gan ddysgwyr
- Polisïau ynghylch ffioedd cwrs
- Cymorth i ddysgwyr reoli costau fel gofal plant a thrafnidiaeth
- Sut y cynhelir asesiadau

## Dolenni ac adnoddau defnyddiol

Er mwyn llywio datblygiad y briff hwn, comisiynodd Medr y Sefydliad Dysgu a Gwaith i gynnal grwpiau ffocws gyda dysgwyr ACL. Ceir crynodeb o'r canlyniadau ynghlwm yn **Atodiad A**.

Mae Medr hefyd wedi comisiynu'r Sefydliad Dysgu a Gwaith i gyflawni prosiect sy'n helpu darparwyr ACL i ymgysylltu â dysgwyr. Dylai darparwyr ddefnyddio'r adnoddau a ariennir gan Medr o'r prosiect hwn, sydd ar gael o fis Medi 2026, i ymgorffori a chefnogi ymgysylltiad effeithiol â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau.

## Cysylltu â ni

ymgysylltuadysgwyr@medr.cymru

# Atodiad A

## Y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr: Mewnwelediadau o'r grwpiau ffocws ACL

Fel rhan o'i ymgynghoriad ar y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr, comisiynodd Medr y Sefydliad Dysgu a Gwaith i gynnal grwpiau ffocws â dysgwyr ACL. Ceir crynodeb isod o'r adborth a gafwyd, ac fe'i defnyddiwyd i lywio datblygiad briff y sector ACL i gyd-fynd â'r Cod.

Yn ogystal â darparu rhywfaint o adborth cychwynnol er mwyn helpu i lywio gweithrediad y Cod o fewn y sector ACL, roedd y grwpiau ffocws yn gweithredu fel peilot er mwyn helpu i brofi dulliau effeithiol o gynnwys dysgwyr o fewn system drydyddol sydd wedi'i rheoleiddio o'r newydd. Y sesiynau hyn yw'r cam cyntaf tuag at sefydlu llais y dysgwr sy'n gyson a chynaliadwy ac a fydd yn llywio gwaith Medr dros amser.

Nid bwriad y grwpiau ffocws oedd creu darlun cynrychioliadol o brofiadau dysgwyr, na mesur effeithiolrwydd trefniadau ymgysylltu â dysgwyr o fewn eu darparwyr penodol, ond rhoi mewnwelediadau cryno i ddealltwriaeth dysgwyr ACL o ymgysylltu, a'r hyn yr hoffent ei weld.

### Methodoleg

Cynhaliwyd dau grŵp ffocws ar-lein ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2025, lle'r oedd cyfanswm o 13 o ddysgwyr ACL cyfredol a blaenorol, o amrywiaeth o ddarparwyr, yn bresennol. Er mwyn helpu i recriwtio cyfranogwyr a diolch iddynt am eu hamser, rhoddwyd taleb gwerth £25 i bawb a oedd yn bresennol.

Aeth y Sefydliad Dysgu a Gwaith ati gyda Medr i lunio cwestiynau ynghylch profiadau dysgwyr o ymgysylltu â dysgwyr, gan gynnwys:

- Eu dealltwriaeth o'r modd y gwneir penderfyniadau o fewn eu darparydd
- Pa mor wybodus y maent yn teimlo fel dysgwyr ynghylch cyfleoedd i ymgysylltu
- Beth sy'n gwneud iddyn nhw deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael gwrandawiad
- Sut y gallai Medr fonitro a gwerthuso ymgysylltiad â dysgwyr
- Sut yr hoffent ymgysylltu a chael llais yn y dyfodol

### Trosolwg o fewnwelediadau'r ymchwil

- Ar hyn o bryd mae cyfleoedd am adborth i'w cael yn bennaf drwy gyswllt â thiwtoriaid, drwy gynlluniau dysgu personol a chynnydd yr unigolyn. Byddai dysgwyr yn croesawu mwy o gyfleoedd i lunio elfennau strwythurol, fel sut mae cwrs yn cael ei sefydlu neu ei reoli.
- Cesglir adborth yn aml drwy sgyrsiau anffurfiol, gan gynnig cyfleoedd mwy ffurfiol drwy arolygon diwedd cwrs. Mynegodd cyfranogwyr y byddai'n dda gallu gweld yn well sut y caiff adborth arolygon ei adolygu a sut y gweithredir yn ei sgil.
- Disgrifiodd y cyfranogwyr heriau wrth ddylanwadu ar newidiadau strwythurol neu strategol gan fod angen ymgysylltu parhaus a phrosesau cymhleth ar gyfer hynny.

- Hoffai'r cyfranogwyr gael mwy o lais yn agweddau ymarferol (pryd, ble a pha mor hir), cynnwys (beth a addysgir a'r dull o'i addysgu), a strwythurau cefnogi (hygyrchedd ac asesu) eu cyrsiau.
- Nododd cyfranogwyr y gall fod yn anodd cael hyd i wybodaeth am sut i roi adborth neu rannu pryderon mewn deunyddiau ymrestru, neu gall yr wybodaeth honno fod wedi'i chyflwyno mewn iaith gymhleth. Lle cyflwynir darpariaeth drwy drefniadau partneriaeth, gallai canllawiau cliriach ar gyfrifoldebau adborth wella dealltwriaeth ymhellach.
- Mae dysgwyr yn gwerthfawrogi gweld canlyniadau pendant yn sgil eu cyfraniadau ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd cyfathrebu'n glir i gau'r ddolen adborth, gan gynnwys cydnabod adborth, camau gweithredu clir neu welliannau arfaethedi.

## Y prif themâu

### Perthnasoedd â thiwtoriaid

Roedd cyfranogwyr yn gyson yn nodi eu tiwtor fel y prif bwynt cyswllt ac er eu bod yn gwerthfawrogi'r mewnbwn y gallent ei gael ar eu taith ddysgu unigol, nodwyd y gellid datblygu ymhellach gyfleoedd i gyfrannu at ddyluniad ehangach cyrsiau ac at benderfyniadau sy'n effeithio ar y cohort cyfan.

Mae tiwtoriaid cefnogol a hawddgar yn chwarae rhan allweddol er mwyn creu amgylchedd lle bydd dysgwyr yn teimlo'n gyfforddus wrth rannu adborth ac awgrymiadau. Teimlai'r cyfranogwyr fod tiwtoriaid yn sefyll rhwng dysgwyr a'r penderfynwyr strategol a oedd yn llai gweladwy, gan dynnu sylw at gyfle i gryfhau'r cysylltiadau rhwng dysgwyr a phenderfynwyr.

Yn gyffredinol, mae dysgwyr yn gwybod y gallant siarad â thiwtoriaid neu staff swyddfa am faterion, ond byddai rhai yn hoffi i'w darparydd fod yn fwy rhagweithiol wrth atgoffa dysgwyr o'r sianeli hyn.

### Dulliau o roi adborth

Teimlai'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr y gallent roi adborth ar unrhyw adeg drwy fecanweithiau anffurfiol a llafar.

Roedd mecanweithiau adborth ffurfiol yn fwyaf cysylltiedig ag arolygon diwedd cwrs neu ddiwedd modiwl, ac roedd hyn yn cynrychioli cyfle i ehangu ymgysylltu strwythuredig i bob rhan o daith y dysgwr.

Roedd cyfranogwyr yn awyddus i weld eu darparwyr yn defnyddio technoleg gynorthwyol i wneud llwybrau gwybodaeth ac adborth yn fwy hygyrch.

Roedd rhai dysgwyr o ddarparwyr mwy yn gwybod bod gan eu darparydd swyddogaeth fwy penodol ar gyfer llais y dysgwr, ond dywedasant nad oedd yr aelodau hyn o staff yn eu gwneud eu hunain yn ddigon gweladwy i'r dysgwyr.

### Teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt

Teimlai rhai cyfranogwyr, er bod eu hadborth yn cael ei gasglu, eu bod am i'r defnydd o'r adborth hwnnw fod yn fwy tryloyw.

Roedd y profiadau mwy cadarnhaol a ddisgrifiwyd gan ddysgwyr yn gysylltiedig â newidiadau uniongyrchol, gweladwy i'w cwrs, yn seiliedig ar adborth anffurfiol i diwtoriaid, yn hytrach na newidiadau sefydliadol ehangach.

Awgrymodd y cyfranogwyr y byddai mwy o dryloywder ynghylch penderfyniadau, gan gynnwys esboniadau lle na ellir gweithredu newidiadau, yn helpu i gryfhau hyder yn y broses adborth ac yn dangos y rhoddwyd ystyriaeth ofalus i farn dysgwyr.

### Dylanwadu ar benderfyniadau sefydliadol

Roedd y cyfranogwyr eisiau i'w profiadau o fywyd go iawn ddylanwadu ar benderfyniadau strategol eu darparydd, nid newidiadau o fewn yr ystafell ddosbarth yn unig.

Nododd y dysgwyr nifer o feysydd lle roeddent am ddylanwadu ar benderfyniadau sefydliadol. Roedd y rhain yn cynnwys amseriad cyrsiau, lleoliadau, ffioedd cyrsiau a sut y dyrennir cyllid, a sut yr asesir eu gwybodaeth.

**Beth yw nodweddion ymgysylltu da o safbwynt oedolion sy'n dysgu yn y gymuned**

Mecanweithiau clir i roi adborth a chymryd rhan mewn penderfyniadau, ynghyd â dolen adborth i esbonio'r camau y mae'r darparydd yn eu cymryd yn sgil hynny.

Gwybodaeth dryloyw am amserlenni er mwyn gweithredu newidiadau.

Rhannu adborth, fel data o arolygon, â staff perthnasol yn ogystal â dysgwyr, er mwyn gwella'r sianelau cyfathrebu i bawb.

Diweddariadau gan diwtoriaid yn egluro sut y cyfeiriwyd adborth dysgwyr a beth oedd yr ymateb (gan gynnwys rhesymau lle na ellir gweithredu yn sgil adborth).

Prosesau ymgysylltu ac adborth sy'n adlewyrchu profiadau bywyd dysgwyr, gan gynnwys rhai ag anawsterau dysgu a chyfrifoldebau gofalu, a rhai o gefndiroedd amrywiol.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru


2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ



Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**